**Pwyllgor Taliadau**
**Remuneration Committee**

**Cylch Gorchwyl 2023**

Awdurdod

1. Yn unol â pharagraff 3 o Atodlen 2 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, caiff Comisiwn y Senedd benodi staff a bydd yn talu cyflogau aelodau staff y Senedd. Mater i'r Comisiwn yw tâl y Clerc. Mae'r Comisiwn wedi dirprwyo cyfrifoldeb am dâl staff y Comisiwn i'r Clerc, ond mae hyn yn destun ymgynghoriad gyda'r Comisiwn yn achos y Cyfarwyddwyr (swyddi ar fand cyflog S-2 / S-3 o'r strwythur cyflog unedig).

Diben

2. Mae'r Pwyllgor Taliadau (y Pwyllgor) yn gorff cynghori heb ddim pwerau gweithredol. Mae wedi'i awdurdodi gan y Comisiwn i ystyried materion yn ymwneud â thaliadau a thelerau gwasanaeth Clerc y Senedd (y Clerc) a gwneud argymhellion yn hyn o beth. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw argymhellion neu gynigion gan y Clerc ynghylch tâl a materion eraill yn ymwneud â thaliadau a gwobrwyon ar gyferCyfarwyddwyr a'r prif Gynghorydd Cyfreithiol, ac yn rhoi sylwadau arnynt.

3. Bydd y Pwyllgor yn cynorthwyo'r Comisiwn a'r Clerc i sicrhau bod trefniadau tâl yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cywirdeb ac atebolrwydd o ran defnyddio cronfeydd cyhoeddus gan gynghori'r Comisiwn a'r Clerc fel Swyddog Cyfrifyddu, yn ôl y gofyn, ar eu cyfrifoldebau o ran polisïau a systemau yn ymwneud ac arfarnu a thaliadau. O bryd i'w gilydd efallai y gofynnir i aelodau'r Pwyllgor, gyda'i gilydd neu'n unigol, gyfrannu at faterion gweithlu penodol lle mae eu harbenigedd yn gwneud hyn yn briodol.

Swyddogaethau

4. Cynorthwyo'r Comisiwn i gyflawni ei ddyletswydd i sicrhau safonau uchel o lywodraethu corfforaethol a rheolaeth ariannol bob amser drwy ystyried argymhellion a chynigion ar:

- Y strategaeth a'r fframwaith cyflog (gan gynnwys graddfeydd cyflog) ar gyfer tâl y Clerc a'r Cyfarwyddwyr;
- Y strategaeth taliadau a gwobrwyon ar gyfer holl staff Comisiwn y Senedd.

5. Ar ôl sefydlu'r strategaethau a'r fframweithiau cyflog hyn, bydd y Pwyllgor yn ystyried asesiadau cryno ac argymhellion gan:

- y Llywydd ynghylch perfformiad y Clerc er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried y lefel briodol o daliadau yn sgil perfformiad, contractau cyflogaeth, a'r fframwaith cyflog;
- y Clerc ynghylch perfformiad y Cyfarwyddwyr er mwyn i'r Pwyllgor allu ystyried y lefel briodol o daliadau yn sgil perfformiad, contractau cyflogaeth, a'r fframwaith cyflog;

- y Clerc ynghylch talu unrhyw elfen berfformio, yn y dyfodol, o'r strategaeth talu a gwobrwyo a gytunwyd ar gyfer yr holl staff.

Mae'r siart llif yn yr Atodiad yn dangos y camau yn y broses.

6. Bydd y Pwyllgor yn cynnal adolygiadau rheolaidd o'i effeithiolrwydd ei hun.

Gweinyddiaeth

7. Bydd aelod o staff y Comisiwn yn gweithredu fel ysgrifennydd i'r Pwyllgor ac yn darparu cymorth gweinyddol yn ôl y gofyn.

Cyfarfodydd

8. Bydd y Pwyllgor yn cael ei gynnal yn ffurfiol gyda chofnodion o’r trafodion a’r argymhellion yn cael eu cyflwyno i'r Comisiwn a’r Clerc (ar wahân i eitemau ynghylch tâl y Clerc yn bersonol). Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn.

9. Cynhelir cyfarfodydd yn ôl yr angen. Gall unrhyw aelod o'r Pwyllgor ofyn am gyfarfod os ydynt yn ystyried bod angen un.

10. 10. Gellir gofyn i aelodau'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol roi adborth i'r Pwyllgor ar faterion gweithlu perthnasol y Comisiwn lle buont yn ymwneud â'r mater.

11. Bydd y Pwyllgor yn paratoi adroddiad blynyddol ffurfiol ar ei waith ar ddiwedd y flwyddyn ac yn ei gyflwyno i'r Comisiwn.

Aelodaeth

12. Bydd y Pwyllgor yn cynnwys tri neu bedwar aelod a fydd yn annibynnol ar Gomisiwn y Senedd a'i staff, ac ni fydd ganddynt fuddiannau personol neu fusnes yn swyddogaethau'r Pwyllgor. Bydd un neu ddau ohonynt yn aelodau annibynnol o Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg Comisiwn y Senedd. Rhaid i ddau aelod o'r Pwyllgor fod yn bresennol i gael cworwm.

13. Gall y Clerc fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor, ac eithrio lle mae cyflog a thâl y Clerc yn cael eu trafod.

**Cytunwyd gan y Comisiwn 10 Gorffennaf 2023**

**Atodiad**

## Mawrth / Ebrill

Y Llywydd yn asesu Perfformiad y Clerc

Y Clerc yn asesu perfformiad pob Cyfarwyddwr

## Y Pwyllgor Taliadau

Y Pwyllgor Taliadau'n ystyried asesiadau cryno ac yn argymell taliadau o fewn fframwaith tâl a sefydlwyd

## Y Comisiwn

Y Comisiwn yn ystyried casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor Taliadau, ac yn cadarnhau'r taliadau

## Clerc

Gweithredu'r penderfyniadau